Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Hydref 6ed 2026 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Gwenda Evans, (cadeiryddes), Gwynedd Jones, Maldwyn Jones, Bethan Thomas, Eifion Davies, Iolo Evans, Rita Jones, Gary Thomas, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alwyn Jones, Eilir Rowlands, Dewi Pritchard, Gwenda Morris.

Cydymdeimlwyd a theulu Huw Antur Edwards, Llanuwchllyn, un a oedd wedi cyfrannu gymaint i gymdeithasau lleol a thu hwnt.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Medi a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
i) Sbwriel yn y cilfannau ar yr A494 o Lanrafon i'r Bala – nodwyd fod peth o'r sbwriel dal heb ei glirio. Gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â Chyngor Gwynedd am hyn a'u cynghori fod llawer o sbwriel wedi dod i'r amlwg wedi i'r gweithlu dorri'r glaswellt ar ochr y ffordd.
ii) Arwyddion ffordd yng Nghefnddwysarn yn cael eu cuddio gan ordyfiant – cafwyd cadarnhad fod y gwaith wedi cael ei gwblhau.
iii) Trwsio'r wal o flaen lloches bws Cefnddwysarn – roedd y Cyng. Eifion Davies wedi bod yn trafod y gwaith gyda swyddog yr Asiantaeth Cefnffyrdd.
iv) Cwynion i ADRA am beidio torri glaswellt ym mhentref Llanfor – er nad oedd y clerc wedi derbyn unrhyw ymateb ganddynt, mi roedd y glaswellt wedi cael ei dorri.

b) Problemau parcio pentref Llandderfel.
Roedd y clerc wedi cwrdd â swyddogion y gwasanaeth tan a chynrychiolydd y cwmni bws i gael eu barn am y cynllun i osod llinellau melyn yn y pentref. Trefnwyd i ymweld a'r pentref ac i gysylltu â Chyngor Gwynedd i drafod y cynllun ymhellach.

c) Lloches bws newydd i Lanfor.
Yn anffodus roedd swyddog Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi ein cynghori nad oedd ganddynt y gyllideb ar hyn o bryd i godi'r lloches yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-
a) Amrywiol.
i) Triathlon Y Bala – neges ein cynghori fod y digwyddiad wedi bod yn llwyddianus eleni a bydd yn cael ei gynnal nesaf ar y 12/9/27.
ii) Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru - Canllaw i Arolwg 2030 o etholaethau'r Senedd.
iii) Ymgynghoriaeth Gwynedd - ymgysylltu â rhandeiliaid: Parth Buffr 40mya i 20mya ar gefnffyrdd. Derbyniwyd copi o'r cynllun i leihau'r cyfyngiad cyflymder o 60mya i 40mya ar yr A494 o'r 20mya presennol i gyfeiriad Llanfor. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ymateb yn nol gan nodi fod y Cyngor yn croesawu'r bwriad i wella diogelwch ar yr A494 ond nid oeddynt yn teimlo fod y cynllun a gyflwynwyd yn ymarferol ac y byddai'n fwy debygol o greu damweiniau oherwydd lleoliad diwedd y cyfyngiad 40mya.

b) Un Llais Cymru.
i) Rheolau Sefydlog Enghreifftiol 2026 – cytunwyd i'w mabwysiadu.
ii) Gweminar i rannu gwybodaeth allweddol am yr adolygiadau ffiniau cymunedol – cytunodd y cadeirydd a'r clerc i'w fynychu.
iii) Weminar gwybodaeth ar sut i helpu cymunedau i ffynnu drwy weithgaredd corfforol.

Arwyddwyd: ……. Dyddiad: ……..

v) Ceisiadau Cynllunio

i) C26/0563/04/CR - Cais ol-weithredol i wneud addasiadau mewnol ac allanol i gynstabal i ddefnydd gampfa a chyfleuster lles. Pale Hall Hotel, Llandderfel.
ii) C26/0562/04/LL - Cais ol-weithredol i newid defnydd cyn stabl yn ddefnydd gampfa a chyfleuster lles yn gysylltiedig â'r gwesty. Pale Hall Hotel, Llandderfel.
iii) C26/0583/04/LL - Newid defnydd caeau amaethyddol i greu ardal ymarfer corff gaeedig i gŵn. Crynierth Bach, Cefn Ddwysarn,

Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o wrthwynebiad lleol i'r cynlluniau. Roedd yn anodd barnu os oedd perchnogion Pale wedi dinistrio nodweddai hanesyddol gan nad oedd lluniau o'r adeilad cyn gwneud y gwaith. Gyda chais Crynierth Bach nodwyd fod angen sicrhau fod y ffensys terfyn yn ddigonol i sicrhau nad oedd unrhyw gi yn denig i'r ffordd.

iv) DNS CAS-03527-H7Y5R9 – Fferm Wynt Foel Fach – hysbysiad fod cais wedi ei gyflwyno i PEDW.

vi) Materion Ariannol.

a) Archwiliad Allanol 2025-26.
Derbyniwyd yr Adroddiad yn nôl gan yr archwilwyr allanol gyda'r cadarnhad ei fod yn gywir a bod dim materion yn achosi pryder iddynt. Cafwyd cadarnhad gan y clerc ei bod wedi arddangos y 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad' yn y mannau perthnasol.

b) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau).
Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Medi a chafwyd yn gywir.

c) Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru - Cyhoeddiad o'r Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2026–27.

ch) Trefniadau bancio.
Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ychwanegu enw Eifion Davies i awdurdodi taliadau arlein.

d) Taliadau.
Cytunwyd i dalu:-
i) Cyflog a chostau'r clerc (Gorff-Medi)
ii) TWE
iii) Sion Jones (torri glaswellt y mynwentydd, wedi cael ei dalu ym mis Medi)

vii) Materion lleol.

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-
i) Cais i gael giat yn lle camfa ar lwybr troed ger Llyn Caereini, Sarnau.
ii) Gwrychoedd ger Bryn Melyn, Llandderfel a ger mynedfa Garej Glanrafon angen eu torri'n nôl – nid oedd y gwrychoedd wedi cael eu torri felly gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu a Chyngor Gwynedd a'r Asiantaeth Cefnffyrdd.

b) Caead ffordd rhwng Ty'n Llechwedd a Chwm Cottage, Bethel.
Roedd y clerc wedi derbyn cwynion fod y contractwyr torri coed yn cau'r ffordd yn ddi-rhybudd i lwytho ac nid oedd posib i gerbydau basio. Roedd swyddogion Cyngor Gwynedd wedi ymweld â'r safle i gael gair gyda'r contractwyr.

c) Gwasanaeth bws i bentref Llandderfel wedi cael ei darfu oherwydd gwaith ffordd.
Roedd y cwmni bysiau, Lloyds, wedi cysylltu â'r clerc ynglŷn a'r trafferthion yr oeddynt wedi cael yn ddiweddar oherwydd y gwaith ffordd ym mhentref Llandderfel. Roedd peiriannau'r contractwyr wedi amharu ar eu mynediad i'r pentref ac yn dilyn difrod i un o'i bysiau bu rhaid iddynt bigo teithwyr o'r monument am gyfnod. Roedd y clerc wedi pasio'r sylwadau yma ymlaen i Gyngor Gwynedd gan y bu rhaid newid y drefn yn fyr rybudd ac roedd hyn wedi amharu ar y plant a oedd yn teithio i Ysgol Godre'r Berwyn.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Tachwedd 3ydd am 7.30 y.h. yn Neuadd Sarnau.

Arwyddwyd: ……. Dyddiad: ……..